

**COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT PRIFYSGOL  
CAERDYDD A GYNHALIWYD AR 22 IONAWR 2021, TRWY ZOOM, AM 11:00-  
13:00**

Yn Bresennol: Judith Fabian (Cadeirydd), Tomos Evans, yr Athro Karen Holford, Jan Juillerat, Dr Joanna Newman, yr Athro Stuart Palmer, yr Athro Colin Riordan, y Barnwr Ray Singh, Dr Andy Skyrme a'r Athro Ceri Sullivan

Y sawl oedd yn bresennol: Rashi Jain [Cwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd y Brifysgol], Vari Jenkins [Sawl sy'n cymryd cofnodion], Andrew Lane [Uwch Gyngorydd Sicrwydd] am gofnod 820, Sarah Phillips [Archifydd a Rheolwr Cofnodion] am gofnod 821, Ruth Robertson [Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol], Claire Sanders [Prif Swyddog Gweithredu], yr Athro Damian Walford Davies [Rhag Is-Ganghellor Coleg AHSS] am gofnod 819

**810 MATERION RHAGARWEINIOL**

NODWYD Y CANLYNOL

810.1 bod Dr Joanna Newman wedi'i groesawu i'w cyfarfod cyntaf fel aelod lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu;

810.2 bod ymddiheuriadau wedi dod i law gan Len Richards.

**811 MATERION YN CODI**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/367, a nododd gynnydd yn erbyn y materion a gododd o'r cyfarfod blaenorol ar 9 Tachwedd 2020.

**812 DATGANIADAU BUDDIANT**

NODWYD Y CANLYNOL

812.1 bod Jan Juillerat wedi datgan diddordeb mewn perthynas ag eitem 6 o'r agenda, 'Adolygiad Effeithiolrwydd Llywodraethu', fel Cyswllt o Advance HE.

**813 CAMAU GWEITHREDU'R CADEIRYDD ERS Y CYFARFOD  
DIWETHAF**

NODWYD Y CANLYNOL

813.1 ers y cyfarfod diwethaf, cymerwyd Camau Gweithredu'r Cadeirydd i enwebu Dr Joanna Newman fel aelod lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu

ac argymhellodd i'r Cyngor i'w gymeradwyo, a gymeradwywyd wedyn ar 23 Tachwedd 2020.

**814 ADOLYGIAD O EFFEITHIOLRWYDD LLYWODRAETHU**

Siaradodd y Cadeirydd am yr eitem hon a chadarnhaodd fod trafodaethau anffurfiol wedi cael eu cynnal gyda'r tri ymgeisydd a oedd wedi mynegi diddordeb.

**NODWYD Y CANLYNOL**

- 814.1 bod cwmpas yr adolygiad yn cynnwys effeithiolrwydd llywodraethu materion academiaidd yn y Cyngor ac y byddai cyfle i adolygwyr arsylwi ar gyfarfod o'r Senedd.

**815 CADEIRYDD Y CYNGOR**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/383, 'Disgrifiad rôl ar gyfer Cadeirydd y Cyngor'. Siaradodd Rashi Jain, Cwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd y Brifysgol, am yr eitem hon.

**NODWYD Y CANLYNOL**

- 815.1 bod y Cyfrin Gyngor wedi derbyn cais ffurfiol ar 16 Rhagfyr 2020, i ddiwygio Statudau IV a VI i ganiatáu i'r Cyngor benodi Cadeirydd yn allanol;
- 815.2 y gallai'r disgrifiad rôl roi mwy o bwyslais ar oruchwylio materion academiaidd a gofyn am brofiad o arwain mewn cyd-destun academiaidd. Gallai'r Prif Gyfrifoldebau gyfeirio at weledigaeth a strategaeth y Brifysgol, gan gyfeirio at yr amgylchedd academiaidd;
- 815.3 y dylai'r cyfeiriad at gydraddoldeb ac amrywiaeth fod yn gyson â'r iaith a ddefnyddir ar draws y sefydliad ac y dylid defnyddio offeryn 'datgodiwr rhyw' ar-lein i adolygu unrhyw duedd bosibl yn y geiriad;
- 815.4 nad oedd yr ymrwymiad amser yn adlewyrchiad cywir o'r amser presennol y mae'r rôl yn gofyn amdano. Gall defnyddio gofyniad sylfaenol helpu i gyfleu'r ymrwymiad amser sydd ei angen.

**PENDERFYNWYD Y CANLYNOL**

- 815.5 Ysgrifennydd y Brifysgol a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu i adolygu'r disgrifiad rôl cyn ei gyflwyno i'r Cyngor er gwybodaeth;

**816 FFRAMWAITH LLYWODRAETHU – DIWEDDARIAD 2020**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papurau 20/368 'Fframwaith Llywodraethu – Diweddariad 2020'. Gwahoddwyd Ruth Robertson, Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol, i siarad am yr eitem hon.

#### NODWYD Y CANLYNOL

- 816.1 y byddai'r Fframwaith yn cael ei adolygu'n flynyddol a'i ddiweddarau ar y wefan;

#### PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

- 816.2 ystyried cyfeirio at Bwyllgor Enwebiadau o fewn y Fframwaith;
- 816.3 adolygu'r datganiad ar aelodaeth y Pwyllgor Taliadau i adlewyrchu'r disgresiwn ar gyfer aelodau cyfetholedig;
- 816.4 adlewyrchu mai cylch gwaith y Bwrdd yw cynghori'r Is-Ganghellor ar feysydd o dan ei gyfrifoldeb;
- 816.5 dylid ystyried cyfeirio at reoli digwyddiadau mawr;
- 816.6 bod cynaliadwyedd yn y cwricwlwm yn dod o fewn y Strategaeth Addysg, felly nid oedd angen ychwanegu cyfeiriad ar wahân at y Deon dros Gynaliadwyedd ar hyn o bryd.
- 816.7 argymhell y Fframwaith Llywodraethu i'r Cyngor i'w gymeradwyo yn amodol ar y newidiadau a nodwyd.

#### **817 NEWIDIADAU MEWN ORDINHADAU**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papurau 20/369 'Newidiadau i Ordinhadau' a phapur 20/376 'Atodiad A'. Gwahoddwyd Ruth Robertson, Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol, i siarad am yr eitem hon.

#### NODWYD Y CANLYNOL

- 817.1 bod nifer o newidiadau wedi'u cyflwyno i'w cymeradwyo. Roeddent yn rhychwantu'r rhai lle'r oedd y materion y cyfeiriwyd atynt eisoes wedi cael cymeradwyaeth gan y Cyngor (e.e. camau gweithredu sy'n deillio o argymhellion Adolygiad Powell) ac roedd angen diweddarau geiriad yr Ordinhad o ganlyniad; a'r rhai a oedd yn cael eu hargymhell i'w cymeradwyo i'r Cyngor am y tro cyntaf;
- 817.2 bod trafodaethau wedi'u cynnal gyda'r Canghellor a'r Rhag Gangellorion ynghylch aelodaeth y panel i gynnal yr adolygiad o'r Llys a byddai hyn yn cael ei ystyried ymhellach yn y Cyngor ar 8 Chwefror 2021.

## PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

817.3 argymell i'r Cyngor gymeradwyo'r Newidiadau i'r Ordinhadau.

**818 ADRODDIAD IECHYD, DIOGELWCH A LLES**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/371 'Adroddiad Iechyd, Diogelwch a Lles'. Gwahoddwyd yr Athro Karen Holford, Dirprwy Is-Ganghellor, i siarad am yr eitem hon.

## NODWYD Y CANLYNOL

818.1 y byddai'n ddefnyddiol cyflwyno data yng nghyd-destun tueddiadau, fel y gallai'r Pwyllgor nodi meysydd lle y gallent dymuno cael rhagor o wybodaeth;

818.2 bod y Cyngor hyd yma wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf drwy adroddiad yr Is-Ganghellor;

818.3 bod aelod lleyg o'r Cyngor ar y Pwyllgor Diogelwch Iechyd a'r Amgylchedd;

## PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

818.4 y dylai'r Cyngor barhau i gael cyflwyniad cryno lefel uchel yn adroddiad yr Is-Ganghellor, yn hytrach nag adroddiad penodol gan Gadeirydd y pwyllgor hwn;

818.5 efallai y bydd y Cyngor yn dymuno cychwyn cyflwyniadau penodol mewn ymateb i dueddiadau a data a nodwyd yn yr adroddiad.

**819 MABWYSIADU A DIFFINIO GWRTH-SEMITIAETH AC ISLAMOFFOBIA**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/372CR 'Mabwysiadu a diffinio gwrth-semitiaeth ac islamoffobia'. Gwahoddwyd yr Athro Damian Walford Davies, Rhag Is-Ganghellor, Coleg y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol, i siarad am yr eitem hon.

## NODWYD Y CANLYNOL

819.1 bod Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gynnal;

819.2 y bydd y Pwyllgor Amrywiaeth a Chynhwysiant Cydraddoldeb yn goruchwyllo'r gwaith monitro.

## PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

819.3 argymell y cynigion a amlinellir ym mhapur 20/372CR 'Mabwysiadu a diffinio gwrth-semitiaeth ac islamoffobia' i'r Cyngor i'w gymeradwyo.

**820 MONITRO'R GYMRAEG – ADRODDIAD BLYNYDDOL**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/373 'Monitro'r Gymraeg – Adroddiad Blynyddol'. Gwahoddwyd Andrew Lane, Uwch-ymgyngorydd Sicrwydd, i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

820.1 y bydd y meysydd sydd wrth symud ymlaen yn canolbwyntio ar safonau llunio polisïau a chymhwyso Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yng Nghymru i ystyried cyfleoedd ar gyfer darpariaeth y Gymraeg ac effaith bosibl ar ddarpariaeth.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

820.2 cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar Fonitro'r Gymraeg – Adroddiad Blynyddol i alluogi cyhoeddi ar-lein cyn 31 Ionawr 2021.

**821 CYFNODAU CADW AR GYFER DATA YMCHWIL**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/374 'Cyfnodau cadw ar gyfer data ymchwil'. Gwahoddwyd Sarah Phillips, Archifydd a Rheolwr Cofnodion, i siarad am yr eitem hon.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

821.1 cymeradwyo'r newidiadau i'r cyfnodau cadw diwygiedig ar gyfer data ymchwil.

**822 UNRHYW FATER ARALL**

NODWYD Y CANLYNOL

822.1 nad oedd unrhyw eitemau i'w hystyried o dan Unrhyw Fusnes Arall.

**823 CYDYMFFURFIO Â'R COD RHEOLI ARIANNOL A CHOD LLYWODRAETHU CUC AU**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/370 'Cydymffurfio â'r Cod Rheolaeth Ariannol a Chod Llywodraethu CUC HE'.

NODWYD Y CANLYNOL

823.1 bod Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu wedi cyfarfod â'r Cynghorydd Llywodraethu ym mis Rhagfyr 2020 i adolygu'r gwaith a wnaed i roi sicrwydd o gydymffurfiad â'r codau.

#### **824 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Gwahoddwyd yr aelodau i adolygu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2020, ac i gynnig sylwadau neu newidiadau fel y bo'n briodol.

#### **PENDERFYNWYD Y CANLYNOL**

824.1 y cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2020 yn gofnod cywir a gwir o'r cyfarfod.

#### **825 AGENDA'R CYFARFOD NESAF**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/375, 'Agenda'r Cyfarfod Nesaf'. Siaradodd Judith Fabian, Cadeirydd y Pwyllgor, am yr eitem hon.

#### **NODWYD Y CANLYNOL**

825.1 bod yr aelodau wedi cytuno ar agenda'r Pwyllgor Llywodraethu a drefnwyd ar gyfer 15 Mehefin 2021.